| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | Cystadleuaeth 149 – Llefaru Unigol Bl.7,8 a 9(D) |
| | **Y Gêm, Gwynne Williams** |

Yr awyr las,
Y crysau coch
A'r closiau gwyn.
Mae'r gêm ar droed!

Cicio, cyffro,
Symud sydyn.
Neidio, nodio.
Chwiban, chwys.
Ymosod chwyrn.

Y dyrfa'n frwd tu ôl i'r gôl.
Y bêl yn tasgu
A'r gwynt yn ei chwipio
Ffordd hyn, ffordd draw.
Tair chwiban siarp.
Hanner amser.
Oren oer.

Chwiban fain -
I ffwrdd â ni
I lawr y cae fel mellten goch.
GÔL o'r diwedd
A llai na chwarter awr i fynd.
Y dyrfa'n rhuo,
Chwarae chwim,
Ymosod gwyllt.

Tair chwiban siarp.
Amser llawn.

Un – dim
UN – DIM!

I ni
I NI!